**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG**

**Arolwg Polisi o'r Gymraeg mewn Addysg**

**1 Pwy yw RHAG**

Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg yn dathlu ei 50 mlwyddiant eleni. O'r cychwyn bu'n grwp ymgyrchu o blaid sefydlu ysgolion Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, gyda'r nod o roi cyfle cyfartal ieithyddol i rieni sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant ac sydd am i'w plant feddu ar ddwyieithrwydd cyflawn. Mae gan rieni ysgolion Cymraeg gynrychiolwyr ar bwyllgorau lleol a sirol, ac mae'r rhain yn eu tro'n cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol.

Ar lefel genedlaethol a sirol rydym yn casglu gwybodaeth am yr angen am ysgolion Cymraeg, ac yn cysylltu'n gyson â swyddogion addysg a gwleidyddion gwahanol siroedd Cymru, ac â gwahanol gyrff sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru, pan fo'r angen yn codi.

**2 Ysgolion Cymraeg**

Mae sawl model ieithyddol ar gael yn ysgolion Cymru. Cyfeiriwn yma at Ysgolion Cymraeg fel rhai sy'n dysgu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion cynradd Cymraeg yn ysgolion tref neu bentref, ac yn rhan o system addysg a gynigir fel dewis cyntaf i rieni.

Mewn rhai siroedd, gan gynnwys rhannau o Gonwy, Dinbych, Fflint a Phowys, mae nifer o'r ysgolion Cymraeg yn rhai naturiol Gymraeg, ond gallant fod yn agored i'w Seisnigo.

Yng ngweddill Cymru mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion Cymraeg yn ysgolion Cymraeg penodedig y mae rhieni'n gallu eu dewis i'w plant yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol Saesneg leol.

Erbyn gorffen eu haddysg gynradd mewn ysgolion Cymraeg, mae'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Ysgolion Cymraeg sy'n dilyn patrwm ieithyddol ysgolion penodedig Cymraeg yn unig sy'n cyflwyno dwyieithrwydd cyflawn yn y pedwar sgïl ieithyddol i'r holl ddisgyblion**.

Mae pob tystiolaeth mai ysgolion Cymraeg yn unig sy'n llwyddo i gyflwyno'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal i ddisgyblion o gartrefi Cymraeg a Saesneg, a bod **y Gymraeg yn dibynnu ar dwf yr ysgolion hyn.**

## 2.2 Twf ysgolion Cymraeg

Yn 1907 cafwyd argymhelliad gan Adran Gymreig y Bwrdd addysg y dylid defnyddio'r Gymraeg yn gyfrwng addysg mewn ardaloedd Cymraeg. Ac eithrio rhai arbrofion, ni chafwyd addysg Gymraeg yn ardaloedd llai Cymraeg Cymru. Sefydlwyd yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf o dan awdurdod addysg lleol yn Llanelli, yn 1947, a gwelwyd ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael eu sefydlu ym mhob rhan o Gymru.

Ystyriwn fod twf ysgolion penodedig Cymraeg, ac yn sgil hyn neilltuo nifer helaeth o ysgolion yn rhai categori A yng ngorllewin a gogledd Cymru, wedi bod yn rhan annatod o adfywiad y Gymraeg ymysg y to iau yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. Digwyddodd y twf hwn ar adeg pan welwyd y Gymraeg yn edwino fel iaith gymunedol ac fel iaith teulu. **Mae llwyddiant addysg Gymraeg wedi bod yn gwbl allweddol i barhad y Gymraeg, ac mae'n debyg o barhau felly**. Adlewyrchir y llwyddiant yn ffigurau'r cyfrifiad diwethaf:

**Canran siaradwyr Cymraeg Cymru**

| oed | 3-15 | 16-29 | 30-44 | 45-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|
| | 24.3% | 15.9% | 14.8% | 17.4% | 22.6% |

## 2.3 Twf y gorffennol

Digwyddodd twf y gorffennol ar brydiau trwy weledigaeth gwleidyddion a swyddogion addysg. Bryd arall, serch hynny, bu raid i rieni ymgyrchu am flynyddoedd i sefydlu ysgol Gymraeg yn eu hardal, a hynny'n aml yn erbyn dymuniad gwleidyddion a swyddogion addysg.

Tyfodd ysgolion Cymraeg mewn gwahanol rannau o Gymru ar gyflymder gwahanol, yn ôl profiadau lleol, a thyfodd heb fodolaeth cynllun Cymreig cyffredinol i hybu ac i gynllunio addysg Gymraeg.

**Dibynnodd y twf i raddau helaeth ar frwdfrydedd rhieni Cymraeg a digymraeg i fynnu addysg Gymraeg i'w plant**. Esgorodd hyn ar brydiau ar ddrwgdeimlad a gwrthdaro. Arweiniodd hefyd at ddatblygiad ar hap, sydd wedi rhoi i ni ein sefyllfa bresennol, er y gellir rhag-weld peth newid yn sgil Cynlluniau Datblygu Addysg Gymraeg a gyflwynir gan awdurdodau lleol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, er ei bod yn rhy gynnar eto i fesur effeithiolrwydd y rhain.

Er gwaethaf yr anawsterau mae'r canlynol wedi ei gyflawni:

- **Rhyw 20% o ddisgyblion cynradd Cymru'n mynychu dosbarthiadau** lle y dysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
- Yr ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd Seisnigedig **wedi llwyddo i gynyddu fesul blwyddyn**, a'r galw rhagweladwy yn dal i gynyddu
- Yr ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd Seisnigedig yn llwyddo i **ddenu canran uchel iawn o blant o gartrefi Saesneg**
- Yr ysgolion hyn wedi datblygu'n raddol mewn sawl man yn **ysgolion ardal leol.**

Serch hynny datblygwyd sefyllfa lle y gwelir

- **ardaloedd eang** yn ein trefi a'n dinasoedd **heb ysgol Gymraeg**
- **addysg Saesneg ar gael yn llawer mwy hwylus** nag addysg Gymraeg
- bod 50% o rieni Cymru yn dymuno i'w plant siarad Cymraeg, ond **nid oes lle i fwy nag 20% o blant mewn ysgolion Cymraeg**
- anhawster i sefydlu ysgolion Cymraeg ychwanegol oherwydd **diffyg cyllid gan awdurdodau lleol**
- **diffyg gwybodaeth** am ddarpariaeth addysg Gymraeg ymysg rhieni
- **cyfleusterau addysg anghenion arbennig, a chymorth ar faterion eraill, e.e. lleferydd, yn ddiffygiol** o'u cymharu â'r ddarpariaeth Saesneg
- rhai awdurdodau'n darparu **dosbarth neu ffrwd mewn ysgol Saesneg** yn lle ysgol Gymraeg gyflawn
- rhai ysgolion naturiol Gymraeg yn agored i'w Seisnigo oherwydd mewnfudo
- **plant yn teithio filltiroedd lawer** i ysgol Gymraeg tra bo ysgol Saesneg ar y trothwy
- **plant yn teithio heibio i un ysgol Gymraeg i un arall** yn sgil lleoliad afresymegol ysgolion
- **plant yn cerdded dwy filltir** i ysgol gynradd a thair milltir i ysgol uwchradd **ar hyd strydoedd prysuraf ein trefi a'n dinasoedd**
- **twf araf addysg gynradd Gymraeg yn y deng mlynedd diwethaf yn sgil diffyg adnoddau a chyllid, a diffyg cynllunio rhagweithiol**. Gellir cymharu'r twf yng Ngwlad y Basgiaid, lle mae rhyw 80% o blant cynradd yn derbyn addysg trwy'r Fasgeg, o'i gymharu â 5% 25 mlynedd yn ôl.

## 2.4 Anawsterau pellach

Wrth i addysg Gymraeg ddatblygu, gwelwyd anawsterau cyson wrth i systemau addysg Cymru ei chael hi'n anodd ymaddasu.

Mae'r anawsterau hyn wedi cynnwys, neu'n dal i gynnwys

- **cystadleuaeth anghyfartal** rhwng dosbarthiadau meithrin Saesneg sydd ar gael yn agos a rhai Cymraeg y mae'n rhaid teithio iddynt
- plant ysgolion lleol Cymraeg yn y siroedd Cymraeg yn **sefyll arholiadau TASau Mathemateg a Gwyddoniaeth yn Saesneg**
- **diffyg cyfle i ymuno** yn y sector Cymraeg yn hwyr
- **colli sgiliau ieithyddol wrth drosglwyddo i addysg uwchradd**, yn enwedig yn yr ardaloedd Cymraeg
- **colled enfawr o sgiliau ieithyddol wrth drosglwyddo o'r sector uwchradd** i'r sector addysg bellach a'r sector addysg uwch

## 3 Y dyfodol

### 3.1 Cymru ddwyieithog

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn nodi y dylid trin y Gymraeg ar sail gydradd â'r Saesneg, ac mae creu Cymru ddwyieithog yn nod gan y Cynulliad Cenedlaethol. Daeth yn bryd ceisio diffinio'r nod hwn yn fanwl o ran cymdeithas ac unigolion. Dwyieithrwydd yr unigolyn sydd gennym o dan sylw yn y papur hwn, yn hytrach na deuglosia cymunedol. I sicrhau dwyieithrwydd cyflawn i'r nifer uchaf o unigolion sy'n ei ddymuno, daeth yn bryd cynllunio addysg Gymraeg ar lefel genedlaethol, fel bo awdurdodau lleol yn gweithredu o fewn fframwaith cydlynus.

Awgrymwn bod angen

1. **Cael awdit cenedlaethol o'r galw, yr anghenion a'r ddarpariaeth**, i fesur y galw yn y dyfodol, ac i gynllunio ar ei gyfer. Mae un arolwg eisoes wedi nodi bod 50% o rieni Cymru am i'w plant gael addysg Gymraeg. **Nid yw'n foddhaol peidio â symud tan i rieni unigol ymgyrchu, weithiau am flynyddoedd, am ddarpariaeth ychwanegol pan fo'r ddarpariaeth bresennol yn orlawn.** Er bod sawl papur gan y Cynulliad yn nodi y dylai darpariaeth addysg Gymraeg ymateb i'r 'galw' amdani, nid oes neb wedi gwneud ymdrech i fesur y galw yn fanwl. **Mae angen awdit ar fyrder.**
2. **Cael awdit lleol o anghenion a darpariaeth**, fel bod awdurdodau lleol yn cynllunio twf addysg Gymraeg yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol.
3. **Gosod targedau cenedlaethol a lleol** ar gyfer twf niferoedd sy'n mynychu ysgolion Cymraeg. Dylai'r rhain anelu yn y lle cyntaf at roi addysg Gymraeg i 50% o blant Cymru.
4. **Darparu adnoddau dynol a chyllidol** digonol ar gyfer y datblygiadau hyn.

5. **Rhaglen farchnata a chyhoeddusrwydd** eang o fanteision y Gymraeg i godi hyder yn y Gymraeg, ac i godi ymwybyddiaeth.

I gyflawni'r nodau hyn mae angen gweithredu ar y canlynol:

### 3.2 Addysg Feithrin

Sicrhau bod **addysg feithrin Gymraeg ar gael mor hwylus ag addysg feithrin Saesneg**. Ystyr hynny yw bod yr addysg feithrin Gymraeg ar gael yr un pellter cyfartalog o gartrefi ag addysg feithrin Saesneg.

Os nad yw ysgol Gymraeg ar gael yn hwylus, dylid rhoi cyllid digonol i Fudiad Ysgolion Meithrin i ddarparu addysg gyfatebol mewn man hwylus, a dylid annog cydweithredu clòs rhwng y system addysg statudol a Mudiad Ysgolion Meithrin.

Os na ellir cyflawni hyn mewn ardal benodol, **dylai trafnidiaeth gael ei darparu'n rhad ac am ddim i wneud iawn am y diffyg**. Mae hyn yn un o oblygiadau sylfaenol trin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.

Mae angen gosod targedau penodol ar gyfer niferoedd a chanrannau plant sy'n mynychu addysg feithrin Gymraeg, yn genedlaethol ac yn sirol.

### 3.3 Addysg Gynradd

Sicrhau bod addysg gynradd Gymraeg ar gael mor hwylus ag addysg gynradd Saesneg.

Mae angen diwygio'r rheolau ar gludo plant i ysgolion i ystyried y twf mewn trafnidiaeth mewn trefi a dinasoedd ers i'r rheolau gael eu ffurfio. Golyga hyn bod angen rhoi **trafnidiaeth yn rhad ac am ddim** i blant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg **os yw'r ysgol Gymraeg yn bellach ar gyfartaledd na'r ysgol Saesneg mewn ardal.**

Mae angen gosod targedau cenedlaethol a sirol o ran niferoedd disgyblion mewn addysg Gymraeg.

I gyrraedd y nodau mae angen cynlluniau cenedlaethol a lleol strategol i gynllunio twf addysg gynradd Gymraeg. Nid yw'r Cynlluniau tair blynedd presennol a fynnir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn ddigon strategol. Cafwyd oedi hir mewn rhai achosion wrth eu llunio, ac effaith hyn yw gohirio datblygiadau. **Dylai fod gan bob awdurdod addysg lleol gynllun strategol deng mlynedd sy'n cydymffurfio â chynllun cenedlaethol 10 mlynedd i ddatblygu addysg Gymraeg.**

Mae angen rhoi cyllid digonol i awdurdodau lleol i weithredu eu cynlluniau, er mwyn sicrhau nad yw'r cynlluniau'n cael eu llesteirio gan ddiffyg adnoddau. **O bryd i'w gilydd gall hyn olygu gwario ar adeiladau newydd. Bryd arall dylid rhoi ystyriaeth i'r posibilrwydd o sefydlu clystyrau ysgol mewn ardaloedd, a throi un neu ragor o ysgolion y clwstwr yn ysgol** Gymraeg, yn ôl canlyniadau awdit lleol.

Mae angen datblygu dulliau penodol, mewn unedau arbennig, o gymathu disgyblion sy'n symud i mewn i ardal ysgol Gymraeg yn ieithyddol, er mwyn iddynt allu elwa'n llawn ar addysg Gymraeg.

**Mae angen rhoi adnoddau llawer mwy sylweddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg** ar gyfer staff cynllunio a monitro addysg. Ar hyn o bryd mae'r gwaith yn ymddangos yn llawer mwy nag y gellir ei gyflawni'n realistig.

Mae angen sefydlu **system fonitro cenedlaethol a sirol** i sicrhau bod ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg yn gweithredu polisïau iaith yn effeithiol, yn hytrach na gadael y polisi i'w weithredu yn ôl tuedd neu fympwy penaethiaid.

**3.4 Addysg Uwchradd**

Mae angen **sicrhau bod y golled mewn sgiliau iaith rhwng y sector cynradd ac uwchradd yn dod i ben**, trwy ei gwneud hi'n naturiol i ddisgyblion a astudiodd yn bennaf trwy'r Gymraeg yn y sector cynradd barhau i wneud hynny yn y sector uwchradd. Mae'r golled hon yn digwydd yn bennaf yn ardaloedd Cymraeg Cymru, lle mae ysgolion uwchradd dwyieithog ar hyn o bryd yn gallu bod yn gyfrifol am golli sgiliau ieithyddol a enillwyd yn y sector cynradd trwy cyflwyno mwyafrif y pynciau yn y Saesneg i'r mwyafrif o ddisgyblion, a llawer o'r rhain yn ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf.

Mae colled ieithyddol pellach yn digwydd rhwng Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4, wrth i ddisgyblion newid o astudio'r Gymraeg yn iaith gyntaf i'w hastudio'n ail iaith, yn bennaf mewn ysgolion uwchradd dwyieithog mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg.

Mae angen gwneud y **Gymraeg yn bwnc a asesir trwy gontinw-wm**. Bydd hyn yn dileu'r awydd sydd gan rai rhieni i'w plant lwyddo mewn Cymraeg ail iaith a hwythau'n addas i'w hastudio'n iaith gyntaf. Gall hyn fod yn gyfraniad o bwys wrth geisio peidio â cholli sgiliau ieithyddol. Bydd hyn hefyd yn rhoi nodau cyrhaeddiad realistig ac angenrheidiol i rai sy'n dysgu'r Gymraeg mewn ysgolion Saesneg.

Yn sgil patrymau mewnfudo presennol, mae angen creu **systemau cadarn i dderbyn plant mewnfudwyr i addysg Gymraeg yn hwyr.**

Mae angen **dysgu'r gwyddorau a phynciau technegol trwy'r Gymraeg** er mwyn sicrhau

bod disgyblion yn gallu delio â galwedigaethau yng Nghymru yn y ddwy iaith.

### 3.5 Addysg Gynradd ac Uwchradd Saesneg

Mae cyflwyno'r Gymraeg yn rhan annatod o'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi trawsnewid sefyllfa'r Gymraeg yn y system addysg, ond nid yw hyn o reidrwydd wedi gwneud cyfraniad cyfatebol at greu unigolion dwyieithog cyflawn. **I gryfhau'r ddarpariaeth dylai'r Gymraeg fod yn bwnc craidd ar bob lefel.**

Daeth yn bryd arbrofi â modelau eraill o gynyddu sgiliau ieithyddol. Mae angen rhoi sylw penodol i'r egwyddor sydd wedi llwyddo mor drylwyr mewn ysgolion Cymraeg, sef dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. **Dylai nifer penodol o bynciau mewn ysgolion Saesneg gael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg,** er mwyn atgyfnerthu'r Gymraeg a ddysgir, ac er mwyn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun ystyrlon.

O ran staffio dylid sicrhau bod nifer digonol o staff yn cael hyfforddiant ieithyddol, a'r rhain yn cael eu gwobrwyo'n ariannol.

### 3.6 Addysg Anghenion Arbennig

- Mae angen i'r Cynulliad dderbyn argymhellion a wnaed yn nogfen Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gydnabod angen;
- Dylid sefydlu dosbarth neu uned benodedig ar gyfer anghenion addysgol arbennig oddi mewn i un ysgol Gymraeg ym mhob awdurdod addysg;
- Mae angen sefydlu cwrs gradd therapi iaith a lleferydd sydd â'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn rhan o'i waith craidd;
- Mae angen i bob corff sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru fod yn ymwybodol o'r angen i roi darpariaeth gydradd i ddisgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg.

### 3.7 Addysg Bellach

Mae'r golled ieithyddol yn ddifrifol wrth newid o addysg uwchradd i addysg bellach. Mae angen buddsoddiad sylweddol yn y sector hwn i sicrhau

- **adnoddau Cymraeg digonol**
- **sgiliau iaith digonol o ran staff**
- **sgiliau iaith myfyrwyr**

Dylai sefydliadau addysg bellach ddarparu addysg yn ôl y sgiliau ieithyddol

sydd gan eu myfyrwyr. Dylai eu cyllid fod yn glwm wrth ddarparu canran cyfatebol o gyrsiau

Cymraeg.

Mae gwahaniaeth enfawr rhwng darpariaeth ieithyddol ysgolion penodedig Cymraeg i fyfyrwyr 16+ a darpariaeth colegau addysg bellach i'r un myfyrwyr. Mae'r colegau wedi esgeuluso eu dyletswydd i gynnal sgiliau ieithyddol dwyieithog mewn gwlad ddwyieithog.

**3.8 Addysg Uwch**

Mae'r ddarpariaeth Gymraeg addysg uwch wedi bod yn destun pryder ers tro, ac mae'r cynlluniau a wnaed yn y gorffennol yn aml wedi bod yn rhai annigonol a thros dro. Nid oes dim yn y cynlluniau presennol sy'n awgrymu y bydd y sefyllfa'n newid yn sylweddol yn y blynyddoedd nesaf.

Mae enghreifftiau di-rif o gyrsiau Cymraeg yn cael eu sefydlu, ac yna'n diflannu, wrth i gyllid ddod i ben ac wrth i wahanol adrannau'r brifysgol orfod rhoi blaenoriaeth i feysydd eraill oherwydd gofynion ariannol.

Daeth yn bryd cydlynu'r ddarpariaeth ar draws Cymru ar lefel gydweithredol, gydag adnoddau digonol yn cael eu rhoi o ran cyllid a staff i gynnig rhaglen ystyrlon trwy'r Gymraeg i fyfyrwyr y datblygwyd eu sgiliau iaith mewn addysg uwchradd. Mae **angen penodi 200 o staff prifysgol Cymraeg yng ngwahanol golegau a phrifysgolion Cymru ac ategu hyn gyda rhwydwaith technolegol** fel bod myfyrwyr ym mhob un o golegau a phrifysgolion Cymru'n gallu cynnwys modiwlau Cymraeg yn rhan o'u cyrsiau.

**3.9 Dysgu athrawon, swyddogion ac oedolion**

Er mwyn cyrraedd y nod o roi addysg Gymraeg i 50% o ddisgyblion cynradd Cymru ymhen deng mlynedd, dyweder, bydd angen gwneud buddsoddiad sylweddol ym maes dysgu'r Gymraeg i oedolion.

Bydd angen llunio **rhaglen ddysgu effeithiol i athrawon sydd ar hyn o bryd yn dysgu trwy gyfrwng y Saesneg**. Mae profiad gwledydd eraill yn awgrymu y bydd angen rhaglenni 1,400 o oriau, a rhyddhau athrawon am gyfnodau sylweddol i feistroli'r Gymraeg. I wneud hyn bydd angen **creu uned effeithiol, gyda chyllid digonol i ddysgu'r Gymraeg i oedolion**, i flaenoriaethu athrawon yn y lle cyntaf, ac yna rai mewn swyddi yn y gwasanaethau cyhoeddus, llywodraeth leol a chanol.

**4 Sefydlu fframwaith datblygu effeithiol**

Mae angen sefydlu fframwaith addysg cenedlaethol i ddarparu ar gyfer twf addysg Gymraeg. Gallai'r fframwaith hwn fod yn rhan o'r Cynulliad Cenedlaethol, neu yn gorff neu'n gyrff a noddir ganddo. Awgrymwn bod angen rhoi sylw i'r posibiliadau canlynol, neu i rai cyfatebol o

ran bwriad:

**Bwrdd yr Iaith Gymraeg:** Mae angen i uned addysg y Bwrdd gael arian digonol i sefydlu **Uned datblygu addysg Gymraeg** a fydd yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth fanwl ar gyfer y Gymraeg ar bob lefel o addysg, gan gynnwys adnoddau a staffio. Caiff targedau a osodir ar gyfer twf addysg Gymraeg eu cytuno gan yr Uned a'r Cynulliad, a bydd yr Uned yn casglu cynlluniau datblygu deng mlynedd oddi wrth awdurdodau addysg lleol ac yn monitro'r cynlluniau. Bydd angen i'r uned sicrhau bod **cyrff ariannu, arholi a chomisiynu,** e.e. ELWa, CCAUC, ACCAC, CBAC, yn cyfrannu'n effeithiol at dwf addysg Gymraeg ar bob lefel o addysg yng Nghymru. Dylai'r uned hon hefyd fod â rôl allweddol mewn cynnal gorolwg strategol o'r ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch. Gall yr uned hwn ddatblygu i fod yn rhan o'r Cynulliad, neu'n gorff annibynnol.

**Uned dysgu'r Gymraeg i oedolion:** Mae dysgu'r Gymraeg i oedolion yn faes allweddol, ac mae angen uned genedlaethol gydag adnoddau digonol (Cymharer cyllideb HABE, Gwlad y Basgiaid, o £35miliwn â gwariant ELWa o £3miliwn) i allu trefnu dysgu'r Gymraeg yn effeithiol i athrawon ysgolion ac i weithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus ac mewn llywodraeth leol a chanol ar raddfa fawr. Mae hwn yn gam angenrheidiol yn y broses o greu gwlad ddwyieithog.

**Rhwydwaith addysg bellach ac uwch Gymraeg**

Yn wyneb methiant y system bresennol i ddarparu'n ddigonol at addysg bellach ac uwch Gymraeg, mae angen sefydlu rhwydwaith i ddatblygu'r agweddau hyn ar addysg. Bydd gan y rhwydwaith rôl gydlynol, a bydd yn darparu cyllid i sicrhau swyddi digonol ac adnoddau digonol yn y maes hwn, gan ddatblygu systemau dysgu o bellter i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael ymhob rhan o Gymru.